OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 235

# Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019

## RHAN 2

## DIWYGIADAU I REOLIADAU ADDYSG (FFIOEDD A DYFARNIADAU) (CYMRU) 2007

### Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007

**2.** Mae Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007(**1**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 6.

**3.** Yn y testun Saesneg, yn lle "United Kingdom and Islands" ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "United Kingdom and the Islands".

### Diwygiad i reoliad 4

**4.** Yn rheoliad 4 (codi ffioedd) ym mharagraff (4), yn lle "amod a osodir o dan adran 28 o Ddeddf Addysg Uwch 2004" rhodder "adran 10 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015".

### Diwygiadau i reoliad 5

**5.** Yn rheoliad 5 (dyfarniadau gan awdurdodau lleol), ym mharagraff (1)—

(a) yn is-baragraff (b), yn lle "o fewn paragraffau 4A a 5" rhodder "o fewn paragraffau 4A, 5 a 5A";

(b) yn is-baragraff (c), yn lle "o fewn paragraffau 4A, 5 a 9" rhodder "o fewn paragraffau 4A, 5, 5A a 9".

### Diwygiadau i'r Atodlen

**6.** Yn yr Atodlen—

(a) ym mharagraff 1, yn y lle priodol mewnosoder—

> "ystyr "person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67" ("*person with section 67 leave to remain*") yw person—
>
> (a) y mae ganddo ganiatâd cyfredol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016(**2**) ac yn unol â'r rheolau mewnfudo(**3**); a
>
> (b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i'r caniatâd hwnnw gael ei roi i'r person;";

(**1**) O.S. 2007/2310 (Cy. 181) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2010/1142 (Cy. 101), O.S. 2011/1978 (Cy. 218) ac O.S. 2018/814 (Cy. 165); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) 2016 p. 19.

(**3**) *Gweler* paragraffau 352ZG i 352ZS.

(b) ym mharagraff 4A, yn lle "yng Nghymru" ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "yn y Deyrnas Unedig";

(c) ar ôl paragraff 5 (personau â chaniatâd i ddod i mewn neu aros ac aelodau o'u teulu), mewnosoder—

"**Personau sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67**

**5A.**—(1) Person—

(a) sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67;

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

(a) sy'n blentyn i berson sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67;

(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, o dan 18 oed ac yn blentyn i'r person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67;

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(ch) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Yn y paragraff hwn—

ystyr "dyddiad y cais i gael caniatâd i aros" yw'r dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67 y cais a arweiniodd at y person hwnnw yn cael caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig."